# CDLl2

# Ceredigion

## Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018 - 2033



## Y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Ceredigion tan 2033


## Ymgynghoriad Strategaeth a Ffafrir

## Fersiwn Hawdd ei Ddarllen

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

**Beth yw'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a**


**Beth mae'n ei wneud**

| | |
|---|---|
|  | Yn dod o hyd i dir lle mae tai newydd yn mynd |
|  | Oes angen mwy o safleoedd cyflogaeth arnom?<br>Ble ddylen nhw fynd? |
| Dylent fod mewn mannau da i…… | |
|  | bobl |
|  | blanhigion |
|  | anifeiliaid |
|  | A gwneud lle rydych chi'n byw yn lle gwell i fyw, gweithio a chwarae ynddo. |



## Pa Gyfnod Ydym Ni Ynddo Nawr?

Rydym yn y cam ymgynghori ffurfiol cyntaf, y **[Strategaeth a Ffafrir](https://www.ceredigion.gov.uk/oldicm/index.cfm?articleid=22191)** **<https://www.ceredigion.gov.uk/oldicm/index.cfm?articleid=22191>**

- Dyma **ddrafft cyntaf** y CDLl
- **Nid yw'r penderfyniadau terfynol wedi'u gwneud**
- Byddwn yn **ystyried barn pawb** wrth baratoi'r drafft terfynol



**Mae dogfen Strategaeth a Ffafrir y CDLl yn cwmpasu:**

| | |
|---|---|
|  | • Y **Materion Allweddol** sy'n wynebu Ceredigion |
|  | • Sut y dylai'r Sir edrych erbyn 2033 - **Gweledigaeth ac Amcanion** |
|  | • Y **Brif Strategaeth** ar gyfer cyfnod y Cynllun |
| | • **Polisïau allweddol** ar y materion pwysicaf ar gyfer y Sir; a |
|  | • Llawer o fanylion eraill fel **dewis ble i adeiladu**. |

## Y Materion Allweddol ar gyfer Ceredigion

Wrth ysgrifennu CDLl mae'n bwysig gwybod pa faterion allweddol y mae angen eu hystyried.

Mae Materion Allweddol Ceredigion yn perthyn i sawl thema fel a ganlyn:



## Sut mae Ceredigion Eisiau Edrych Erbyn 2033

**Gweledigaeth:**

"**Erbyn 2033, bydd Ceredigion yn sir o gymunedau bywiog, dwyieithog ac ymgysylltiedig, lle bydd pobl yn dewis byw, astudio, gweithio ac ymweld, wedi'i hymrwymo i wydnwch ei heconomi, ei diwylliant, ei hamgylchedd a'i hadnoddau naturiol ac i'w hiechyd a'i llesiant.**"



## Strategaeth a Ffafrir:

Yn delio â'r materion drwy'r Amcanion. Mae'n bwriadu:

- **cofleidio newid** a
- **darparu ar gyfer yr angen a ragwelir am dai a'r twf economaidd**


**Mae 18 o Amcanion yn y Strategaeth a Ffafrir. Mae'r cymorth hwn yn dangos**

- sut y byddwn yn mynd i'r afael â'r Materion, a
- cyflawni'r Weledigaeth

Bydd yr ardaloedd twf hyn yn effeithio ar anghenion ynni, ffyrdd, cyflenwad dŵr, draenio, iechyd, addysg, twristiaeth a datblygu siopa.

- canolbwyntio twf mewn ffordd bydd yn
    - o **cryfhau rhwydwaith trefi a chymunedau aneddiadau gwledig Ceredigion**
    - o **cryfhau'r iaith Gymraeg**.





**Twf tai** - darparu ar gyfer tua **3,000 o gartrefi newydd**, gan gynnwys **cartrefi fforddiadwy**, wedi'u gwasgaru ar draws Ceredigion yn y ffordd ganlynol:

- 55% yn y Canolfannau Gwasanaethau Trefol (6 phrif dref)

- 20% yn y Canolfannau Gwasanaethau Gwledig (23 pentref mawr)

- 15% mewn Aneddiadau Cyswllt Mwy ac Aneddiadau Cyswllt Cynaliadwy

**Twf cyflogaeth** - neilltuo tir ar gyfer cyflogaeth o fewn

- y Canolfannau Gwasanaethau Trefol (6 prif dref) a
- rhai canolfannau gwasanaeth gwledig;
- gyda dull polisi hyblyg mewn mannau eraill.

Mae hyn oll i'w gyflawni tra’n

- **diogelu** a **gwella amgylchedd** ac **adnoddau**'r Sir,
- ei gwneud **yn wydn** i newid trwy **ddatblygu cynaliadwy,**,
- sicrhau y gall ei **seilwaith a'i wasanaethau** ddiwallu'r heriau hyn



**Ble fydd Ceredigion yn tyfu?**

**Canolfannau Gwasanaeth Trefol (USC)**

**Darparu ar gyfer 55% o Dwf Tai Cyffredinol**

| | |
|---|---|
| Aberaeron (Llwyncelyn/ Ffos-y-ffin) | Llanbedr Pont Steffan |
| Aberystwyth/ Llanbadarn Fawr/ Waunfawr/ Penparcau/ Rhydyfelin/ Comins-coch | Llandysul |
| Aberteifi | Castell Newydd Emlyn (Adpar) |
| | Tregaron |

## Canolfannau Gwasanaethau Gwledig (RSC)

## Darparu ar gyfer 20% o Dwf Tai Cyffredinol

| | |
|---|---|
| Aber-porth/Parc-llyn (08) | Llanrhystud (16) |
| Bow Street (9) | Llanybydder (Sir Gar) (17) |
| Brynhoffnant (23) | Ceinewydd / Cross Inn (10) |
| Cenarth (11) | Penrhyn-coch (18) |
| Felin-fach/ Ystradaeron (12) | Ponterwyd (19) |
| Llannarth (13) | Pontrhydfendigaid (20) |
| Llanilar (14) | Tal-y-bont (21) |
| Llan-non (15) | Y Borth (22) |

## Aneddiadau Cyswllt Mawr (LLS)

## Darparu ar gyfer 15% o Dwf Tai Cyffredinol

| | |
|---|---|
| Capel Bangor (25) | Llechryd (28) |
| Llanfarian (27) | Pen-parc (29) |
| Llandre (26) | |

## Aneddiadau Cyswllt Cynaliadwy (SLS)

## Darparu ar gyfer 10% o Dwf Tai Cyffredinol

| **LS Cynaliadwy (> 90 uned)** | **LS Cynaliadwy (> 70 uned)** | **LS Cynaliadwy (> 60 uned)** |
|---|---|---|
| Aber-arth | Cellan / Fishers Arms | Alltyblaca |
| Blaen-porth | Y Ferwig | Blaen-plwyf |
| Ciliau Aeron * | Goginan | Llandyfriog |
| Cribyn | Tan y Groes | Llangeitho* |
| Croes-lan | Ffostrasol | Llangybi* |
| Henllan | Gilfachreda | |
| Llandewi Breifi | Eglwys-fach / Furnace | |
| Llanwnnen | | |
| Penrhiw-llan | | |
| Tre-Taliesin / Tre-Ddol | | |




Diagram Allweddol/Key Diagram
Mae pob rhif yn gyfeirnod unigryw i Ganolfan Gwasanaethau/Aneddiadau Cysylltiedig Mwy a'i Grwp Aneddiadau
Each Number acts as a unique reference for a Service Centre/Larger Linked Settlement and its Settlement Group
Canolfan Gwasanaethau Trefol/Urban Service Centre
Canolfan Gwasanaethau Gweledig/Rural Service Centre
Aneddiadau Cysylltiedig Mwy /Larger Linked Settlement
Prif Flyrdd/Major Roads
22
26
21
09
18
03 Aberystwyth
25
24
27
14
16
15
20
01 Aberaeron
10
07 Tregaron
13
12
08
23
29
02 Aberteifi/Cardigan
28
11
17
05 Llanbedr Pont Steffan/Lampeter
06 Llandysul
04 Castell Newydd Emlyn/Newcastle Emlyn (Adpar)
0
10
kilometres
Scale: 1:378,400

## Sicrhau bod y Strategaeth a Ffafrir yn Gynaliadwy

Er mwyn sicrhau bod y Strategaeth a Ffafrir yn gynaliadwy, cynhaliodd yr **Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol** Mae hyn:

- yn ystyried **effeithiau'r** Strategaeth a Ffafrir ar **yr amgylchedd, yr economi a'r gymuned**
- yn **broses barhaus**,

Mae'r **canlyniadau hyd yma** ar gael **fel rhan o'r ymgynghoriad hwn**

Datblygu Cynaliadwy Sustainable Development

## Deall yr Effeithiau Posibl ar Fywyd Gwyllt a Chynefinoedd Safleoedd Ewropeaidd

Mae angen i'r Cyngor wirio **effeithiau posibl** y Strategaeth a Ffafrir ar **safleoedd Ewropeaidd** Ceredigion. Mae'r rhain yn cynnwys **bywyd gwyllt a chynefinoedd gwarchodedig**.

- Gelwir y siec hon yn **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**.
- Mae hon yn broses barhaus

Mae'r **canlyniadau hyd yma** wedi'u nodi yn yr **Adroddiad Sgrinio** sy'n rhan o'r ymgynghoriad hwn.



## Sut ydym ni'n dewis pa safleoedd y gellir adeiladu arnynt?

Fel rhan o CDLl **caiff tir ei ddyrannu ar gyfer defnyddiau penodol**.

Yn 2018 gofynnodd Cyngor Sir Ceredigion i'r cyhoedd a sefydliadau cyffredinol gyflwyno **lleoliadau (Safleoedd Ymgeisiol)** i'w hystyried i'w cynnwys yn y CDLl.

**Mae dros 150 o safleoedd wedi'u cyflwyno hyd yn hyn.**

Er mwyn datrys pa rai sy'n addas i'w cynnwys yn y CDLl, datblygwyd Methodoleg Safleoedd Ymgeisiol.

Mae'n **gwerthuso'r safleoedd** yn erbyn canllawiau cynllunio rhanbarthol a chenedlaethol, Strategaeth Ddewisol y CDLl, unrhyw gyfyngiadau datblygu megis perygl llifogydd neu ddiogelwch y briffordd, yn ogystal â chynaliadwyedd y safle.

## Beth fydd yn Digwydd Nesaf?

Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffafrir, mae'n rhaid i'r Cyngor gynhyrchu drafft terfynol y CDLl - y **Cynllun Adnau**, a fydd yn destun cylch ymgynghori arall. Disgwylir i hyn ddigwydd yng nghanol 2020.

**Bydd y Cynllun Adneuo yn cynnwys yr holl bolisïau manwl a dyraniadau safleoedd sydd eu hangen i wneud gwaith y Strategaeth a Ffefrir.**

Ar ôl yr ymgynghoriad Adneuo, caiff y CDLl ei ystyried gan arolygydd annibynnol. Yn dilyn sylwadau'r arolygydd ac unrhyw newidiadau sydd eu hangen, caiff y cynllun ei **fabwysiadu gan y Cyngor** a **bydd yn cael ei ddefnyddio wrth benderfynu pa ddatblygiadau sy'n cael caniatâd cynllunio**



## Sut y gallwch chi gymryd rhan

Unwaith y byddwch wedi darllen unrhyw un o'r dogfennau, mae croeso i **chi roi eich barn i ni.**

Gallwch wneud hyn **trwy gasglu a llenwi 'Ffurflen Ymateb'** Mae ffurflenni ar wahân ar gyfer pob dogfen.

## Rhaid derbyn unrhyw sylwadau cyn canol dydd ar 12 Medi 2019.

Ni fydd y Cyngor yn ystyried sylwadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau hwn.